Cefnogaeth i Lywodraethwyr Sir Ddinbych – Bwletin 18

Beth yw cynnwys Corff Llywodraethu?

Mae pob llywodraethwr yn rhannu'r union yr un pwerau a phrif amcanion, sef diogelu ansawdd yr addysgu a dysgu a ddarperir gan yr ysgol i godi safonau cyflawniad a chyrhaeddiad y disgyblion a'r staff a bod yn atebol i'r gymuned leol am effeithiolrwydd yr ysgol.

O bryd i'w gilydd bydd angen i chi atgoffa eich hun nad oes gennych unrhyw bwerau cyfreithiol fel unigolyn. Yn gyfreithiol mae'r pŵer yn gorwedd gyda'r corff llywodraethu cyfan, yr ydych yn un aelod ohono yn unig.

Rhiant Lywodraethwyr

Etholir Rhiant Lywodraethwyr, gan rieni'r plant sy'n mynychu'r Ysgol. Gall Rhiant Lywodraethwyr barhau â'u rôl fel Llywodraethwr, tan ddiwedd eu tymor, hyd yn oed os nad yw eu plentyn yn ddisgybl yn yr ysgol mwyach.

Athro Lywodraethwyr

Cyflogir Athro Lywodraethwyr i weithio yn yr ysgol ac fe'u hetholir gan athrawon o fewn yr ysgol.

Staff Lywodraethwyr

Staff a gyflogir yn yr ysgol yw'r Staff Lywodraethwyr, heb fod mewn rôl addysgu, ac fe'u hetholir o blith staff yr ysgol nad ydynt yn addysgu.

Llywodraethwyr Awdurdod Addysg Lleol (AALl)

Cefnogir y Llywodraethwyr hyn gan y Corff Llywodraethu cyn eu penodi gan y cyngor. Hysbysir yr holl leoedd gwag gan yr awdurdod.

Llywodraethwyr Cymunedol

Penodir y Llywodraethwyr hyn gan y Corff Llywodraethu. Gan amlaf mae Llywodraethwyr Cymunedol yn byw neu yn gweithio yng nghymuned ardal yr Ysgol gan ddod â'u harbenigedd personol i'r Corff Llywodraethu.

Llywodraethwyr Cymunedol Ychwanegol

Lle mae cymuned yn cael ei gwasanaethu gan Gyngor Cymuned, gall y Cyngor Cymuned enwebu cynrychiolydd i sefyll ar y Corff Llywodraethu.

Llywodraethwyr Sylfaen

Penodir y Llywodraethwyr hyn ar gyfer Cyrff Llywodraethu gwirfoddol a gynorthwyir (Eglwys) i gynrychioli diddordeb awdurdod yr Eglwys a sefydlodd yr ysgol. Mae ganddynt gyfrifoldeb i sicrhau y caiff credoau'r Eglwys eu cynrychioli.

Disgybl Lywodraethwyr Cyswllt *(Ysgolion Uwchradd yn unig)*

Caiff disgyblion lywodraethwyr cyswllt eu henwebu o blith aelodau cyngor yr ysgol o flynyddoedd 11, 12 neu 13. Nod y disgybl lywodraethwr cyswllt yw cynrychioli cyngor yr ysgol mewn cyfarfodydd o'r corff llywodraethu a chynrychioli'r corff llywodraethu mewn cyfarfodydd o'r cyngor ysgol.

Pennaeth Lywodraethwr

Drwy rinwedd eu penodiad mae Pennaeth yn aelod pleidleisio o Gorff Llywodraethu eu hysgol oni bai eu bod yn dewis peidio â bod yn Llywodraethwr. Bydd Penaethiaid yn mynychu pob cyfarfod llawn y Corff Llywodraethu.

Clerc i Lywodraethwyr

Nid yw'r Clerc yn aelod o'r Corff Llywodraethu ond mae ganddo rôl bwysig wrth sicrhau bod y Corff Llywodraethu yn rhedeg mewn modd effeithlon. Maent yn gyfrifol am weinyddiaeth y Corff Llywodraethu; maent yn galw cyfarfodydd, cymryd cofnodion ayb. Mewn llawer o Gyrff Llywodraethu maent hefyd yn darparu cyngor gweithdrefnol i Lywodraethwyr. Nid yw'r Clerc i Lywodraethwyr yn Llywodraethwr ac felly nid oes ganddo hawliau pleidleisio.

Denbighshire Governors' Support – Bulletin 18

What is the make up of a Governing Body?

All governors share exactly the same powers and major goals which are to safeguard the quality of teaching and learning provided by the school to raise standards of achievement and attainment for the pupils and the staff, and to be accountable to the local community for the school's effectiveness.

From time to time you will need to remind yourself that the law gives you no powers as an individual. The law places powers with the whole governing body, of which you are only one member.

Parent Governors

Parent Governors are elected, by the parents of pupils attending the school. Parent Governors are able to continue in their role as a Governor, until the end of their term of office, even if their child is no longer a pupil at the school.

Teacher Governors

Teacher Governors are employed to work at the school and elected by the teachers within the school.

Staff Governors

Staff Governors are staff employed at the school other than in a teaching capacity and elected from amongst the non-teaching staff at the school.

Local Education Authority (LEA) Governors

These Governors are supported by the Governing Body prior to being appointed by the authority. All vacancies are advertised by the authority.

Community Governors

These Governors are appointed by the Governing Body. Community Governors usually live or work in the community of the school area and bring their own particular expertise to the Governing Body.

Additional Community Governors

Where a community is served by a Community Council, the Community Council can nominate a representative to sit on the Governing Body.

Foundation Governors

These Governors are appointed for voluntary aided (Church) Governing Bodies to represent the interest of the church authority which set up the school. They have responsibility to ensure the beliefs of their Church are represented.

Associate Pupil Governors *(Secondary schools only)*

Associate pupil governors are nominated from members of the school council from Years 11, 12 or 13. The aim of associate pupil governors is to provide the voice of the school council at governing body meetings and vice versa.

Headteacher Governor

By virtue of their appointment a Headteacher is a voting member of the Governing Body of their school unless they choose not to be a Governor. Headteachers attend all meetings of the full Governing Body.

Clerk to Governors

The Clerk is not a member of the Governing Body but has an important role to play in ensuring that the Governing Body runs efficiently. They are responsible for the administration of the Governing Body; they convene meetings, take the minutes etc. In many Governing Bodies they also provide procedural advice to Governors. The Clerk to Governors is not a Governor and has no voting rights.